Cyngor Cymuned Llaneilian (267)
Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Gorffennaf 7, 2015 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:	Dafydd Griffiths	T Elfyn Hughes	Thomas D Jones	John Griffiths
	Glenys Jones	Helen Hughes	Gordon Hayes	Carol Whitaker
	Cyng. Aled M Jones			
Ymddiheuriadau:	Hefina Williams	David Gerrard		

1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod

2 Datgan Diddordeb
Nid oedd unrhyw aelod am ddatgan diddordeb.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig T Jones, eilio G Jones.

4 Materion yn Codi

4.1 Sedd Wag - Nid oes etholiad wedi ei alw. Mae'r ail hysbysiad swyddogol wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd yn gofyn i unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno a'r Cyngor i gysylltu â'r clerc erbyn Gorffennaf 10fed. Bydd cyfle wedyn i'r aelodau presennol drafod unrhyw enwau fydd wedi eu rhoi ymlaen a chyfethol aelod newydd. CET

4.2 Datblygiad Corn Cam a Charffosiaeth - Cafwyd llythyr gan Dewi Roberts (Adran Briffyrdd) yn cadarnhau nad oedd penderfyniad wedi ei wneud eto i enwi'r datblygiad, ac mai mater i Dwr Cymru fyddai'r system garffosiaeth.

Cafwyd e-bost gan Dewi Frances Jones (Adran Gynllunio) yn cadarnhau bod y Cyngor Sir yn ymgynghori a Dŵr Cymru ar bob cais cynllunio, ac nad oedd gwybodaeth wedi ei dderbyn ganddynt hyd yma a fyddai'n awgrymu bod y system yn ddiffygiol.

Cafwyd llythyr hefyd gan Dwr Cymru yn cydnabod pryderon y Cyngor am yr arogl yn y cae chwarae, ac yn cadarnhau y byddent yn edrych i mewn i'r mater i geisio datrys y broblem. Byddent yn cysylltu eto o fewn mis ar ôl cwblhau peth gwaith archwilio. Cytuno cysylltu â Dŵr Cymru a'r Cyngor Sir i weld os oes rhif uniongyrchol i'w ffonio pan fydd yr arogl yno fel bod modd cofrestru cwynion a chêl ymweliad i'r safle. Cytuno bod angen cofrestru'r cwynion a hefyd gofyn i drigolion lleol fel bod modd ceisio canfod patrwm. CET

Yn eu llythyr, mae Dŵr Cymru yn cadarnhau eu bod yn ymgynghori a'r Cyngor Sir ar faterion cynllunio a chafwyd manylion cyswllt ar gyfer eu Swyddog Datblygu. Cytuno byddai o fantais i'r Cyngor ofyn am gynllun yn dangos ble mae'r system garffosiaeth yn y pentref er gwybodaeth, a hefyd gwahodd y Swyddog i drafod y cynllun ac ymateb i unrhyw gwestiynau fydd gan yr aelodau. CET

4.3 Cymdeithas y Leinws - mae'r gymdeithas wedi e-bostio yn diolch am y cyfraniad gan y Cyngor, a hefyd yn gofyn am syniadau sut i ehangu'r gynulleidfa. Cytuno dylid gosod posteri mewn llefydd mwy amlwg er enghraifft Post Amlwch a Phenysarn, Siop y pentref, Hysbysfwrdd y Cyngor ayyb yn ogystal ag yn yr Arwydd a phapurau lleol megis yr Anglesey Mail. CET

7 Cynllunio

7.1 Ceisiadau – CET
Trafodwyd dau gais cynllunio –
1 – Ardwyn, Penysarn – dim gwrthwynebiad
2 - Tŷ Moel Isaf, Llaneilian - dim gwrthwynebiad

5.2 Penderfyniadau -
Nid oedd penderfyniadau i'w cofnodi.

6 Materion Ariannol

6.1 Taliadau –
Cymeradwywyd y taliadau canlynol -
£225.50 Costau Gweinyddol Ebrill – Mehefin
£930.25 Cyflog Ebrill – Mehefin
£35.25 HMRC
£216 Alan Phillips (Golau Neuadd) *disgwyl nes bod aelodau o bwyllgor y neuadd wedi cwrdd ag ef.

6.2 Adroddiad Cyllid –
Gofynnwyd i'r Clerc baratoi a chyflwyno adroddiad o wariant ac incwm y Cyngor hyd ddiwedd Mehefin o'i gymharu â'r hyn gafodd ei ragweld yn y gyllideb. Bydd y wybodaeth yma ar gael yn y cyfarfod nesaf. CET

7 Llithrfa
Nodwyd nad oedd y bolard wedi ei osod byth. Gofynnwyd i Cyng. A Jones gysylltu â'r Adran Forwrol i ddatgan siom. Nid yw'r system fel y mae yn deg ar y clerc nac ar yr unigolion sydd wedi talu am oriad am y tymor. Mae'r syniad a'r system yn gweithio ond mae angen gwella'r ffordd y mae'n cael ei weithredu. AMJ

8 Gohebiaeth

8.1 Llys Dulas - cafwyd ymateb gan Paul Roberts ar ran y cwmni yn cadarnhau y byddai yn cadw'r enwau Cymraeg neu yn eu defnyddio ochr yn ochr â rhai wedi eu Saesnegio. Cytuno gwahodd Mr Roberts i gyfarfod nesaf y Cyngor i drafod ymhellach. Nodwyd mai dim mater o ddiogelu iaith yw hon yn benodol ond diogelu hanes lleol. Byddai to hyn y gymuned yn gallu rhannu gwybodaeth am hanes gwahanol adeiladau a chaeau a'r enwau a roddir arnynt. CET

8.2 Cyngor Llanbadrig - cafwyd e-bost yn datgan bod prif weithredwr Horizon (Wylfa Newydd) wedi cytuno i gwrdd â nhw ddechrau mis Awst, ac yn gofyn a oedd gan y Cyngor unrhyw bwyntiau i'w codi yn y cyfarfod? Bydd cyfle i gynrychiolaeth o Laneilian fynychu'r cyfarfod. CET

Roedd gan yr aelodau dau bwynt i'w codi –
1) pwysigrwydd gwelliannau'r A5025 hyd Amlwch a phellach os yn bosib
2) potensial o ddefnyddio'r hen reilffordd hyd safle Rhosgoch er mwyn dod a deunydd adeiladu at y safle heb ddefnyddio'r lonydd.

8.3 Swyddfa Bost - mae'r swyddfa ddidoli yn Amlwch bellach wedi ei chau ac mae angen mynd am Rosybol os oes angen casglu parsel. Deallwyd bod trafodaethau ar hyn o bryd er mwyn ceisio cael parseli lleol wedi eu gadael yn lleol.

8.4 Horizon - cafwyd nifer o ddogfennau gan Horizon yn rhoi diweddariad am wahanol agweddau o'u prosiect hyd yma. Bydd digwyddiad yn Siambr y Cyngor yn Amlwch 8/7/2015.

8.5 Enwebiadau Anrhydeddau Pen-blwydd 2016 - mae gwahoddiad i enwebu unigolion ar gyfer yr anrhydedd. Wedi trafodaeth, cytuno anfon y wybodaeth ymlaen i E Hughes. CET

9 Unrhyw Fater Arall

9.1 Caeau Chwarae -
Cae Chwarae Lon Tyddyn Waen - bydd y gwelliannau yn dechrau ddydd Llun nesaf 13/7/2015 er mwyn gallu cwblhau'r gwaith erbyn dechrau gwyliau'r haf.

Maes Llwyfo – mae'r cyfreithiwr wedi gofyn am enwau'r rhai fydd yn arwyddo'r dogfennau cyfreithiol ar ran y Cyngor. Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fyddai fel rheol ond mae D Griffiths yn aelod o Bartneriaeth Llwyfo. Cytuno dylai H Williams (Is-gadeirydd) a TD Jones arwyddo ar ran y Cyngor. CET

9.2 Mynwent Llaneilian -
Mainc Coffa - rhoddwyd caniatâd i M Herbert gael gosod mainc yn y fynwent ger ble oedd safle'r hen lwybr. Bydd angen tynnu sylw at ofynion polisi'r Cyngor yn ymwneud a gosod meinciau. CET

Costau a Rheolau Claddu - mae peth gwybodaeth wedi dod i law erbyn hyn am gostau mynwentydd eraill, a hefyd eu polisïau a'u rheolau. Bydd angen i'r Is-bwyllgor gyfarfod yn ystod mis Awst er mwyn adrodd yn ôl gyda'u hargymhellion i'r Cyngor Llawn yn y cyfarfod ddechrau Medi. CET

Perchnogaeth Bedd - mae mater wedi dod i law yn ymwneud a pherchnogaeth bedd, sydd eisoes a rhywun wedi ei gladdu ynddo. Cafwyd crynodeb o'r sefyllfa hyd yma. Mae Un Llais Cymru eisoes wedi rhoi sylwadau cyn bod ymateb wedi ei anfon yn ôl i'r llythyr gwreiddiol. Cytuno dylid gofyn i Un Llais am gyngor eto cyn ymateb i'r ail e-bost. CET

9.3 Cwn Swnllyd - daw cwynion am gwn yn Llaneilian. Mae'n debyg bod y perchnogion yn eu magu. Deallwyd bod y Cyngor Sir eisoes yn ymwybodol o'r cwynion a'r sefyllfa. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Cyng. A Jones i gadarnhau gyda phwy mae wedi bod yn trafod y sefyllfa, a chysylltu â hwy ar ran y Cyngor Cymuned i fynegi pryder. CET

9.4 Cyfarfod a'r Heddlu - cafwyd ail gyfarfod llwyddiannus gyda'r heddlu. Byddent yn parhau i fonitro'r pentref yn agos iawn dros y misoedd nesaf. Nodwyd nad oedd ceisiadau am grantiau tuag at ffens ym Maes

Llwyfo wedi bod yn llwyddiannus hyd yma. Roedd cwynion am oryrru ac fe gafwyd cadarnhad bod yr heddlu gyda'r offer i fonitro cyflymder ac y byddent yn eu defnyddio yn yr ardal yn y dyfodol agos.

9.5 Cofgolofn - mae'r tri thorch oedd ar y cof golofn wedi eu dinistrio gan wartheg yn y cae!

9.6 Cyflwr Lôn - nodwyd bod cyflwr y lon o Benysarn at Bengorffwysfa angen sylw, a hefyd y lon o Bengorffwysfa hyd Pant y Clociau. CET

9.7 Llwybr - mae'r llwybr o Ynys Goch i Borth Eilian angen ei glirio. CET

10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 1/9/2015

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.30 o'r gloch.